**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 3272 (Cy.310)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi effaith gydag addasiadau i gynigion gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru. Effaith y cynigion hynny fydd bod yr ardaloedd yng nghymuned Llandudoch yn Sir Ceredigion (a ddangoswyd â llinellau croes duon ac a farciwyd A ar fap ffiniau A ac a ddangoswyd â llinellau croes duon ac a farciwyd B ar fap ffiniau B, y cyfeirir atynt yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn) yn cael eu trosglwyddo o Sir Ceredigion i Sir Benfro ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Cafodd printiau o'r mapiau ffiniau eu hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion ym Mhenmorfa, Aberaeron, Ceredigion; Cyngor Sir Penfro yn Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro a swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd (Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol).

Mae Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'u diwygiwyd) y cyfeirir atynt yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynghylch effaith gorchmynion megis y gorchymyn hwn a'u gweithredu.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 3272 (W.310)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Ceredigion and Pembrokeshire (St Dogmaels) Order 2002

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order, made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972, gives effect with modifications to proposals by the Local Government Boundary Commission for Wales. The effect of those proposals is that areas of the community of St.Dogmaels in the County of Ceredigion (shown hatched black and marked A on boundary map A and shown hatched black and marked B on boundary map B referred to in Article 2 of the Order) will be transferred from the County of Ceredigion to the County of Pembrokeshire after this Order comes into force.

Prints of the boundary maps are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of Ceredigion County Council at Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, Pembrokeshire County Council at County Hall, Haverfordwest, Pembrokeshire and at the offices of the National Assembly for Wales at Cathays Park, Cardiff (Local Government Modernisation Division).

The Local Government Area Changes Regulations 1976 (as amended) referred to in Article 2 of this Order contain incidental, consequential, transitional and supplementary provisions about the effect and implementation of orders such as this.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 3272 (Cy.310)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002

*Wedi'i wneud* *6 Rhagfyr 2002*

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)*

Mae Comisiwn Ffiniau Llwyodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno adroddiad dyddiedig Rhagfyr 2001 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**a**) ar ei adolygiad ar ran o'r ffin rhwng Sir Ceredigion a Sir Benfro yn ardal Cymuned Llandudoch ynghyd â'r cynigion y mae wedi eu llunio amdani;

a chan bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hyn gydag addasiadau y mae eu heffaith yn cynnwys trosglwyddo ardal o dir sy'n gyffiniol â'r eiddo "Parc y Ffrier" o Sir Ceredigion i Sir Benfro;

a bod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu gwneud;

yn awr mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**b**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

(a) 1972 (p.70).

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 3272 (W.310)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Ceredigion and Pembrokeshire (St Dogmaels) Order 2002

*Made* *6th December 2002*

*Coming into force in accordance with Article 1(2)*

The Local Government Boundary Commission for Wales has submitted to the National Assembly for Wales in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(**a**) a report dated December 2001 on its review of part of the boundary between the Counties of Ceredigion and Pembrokeshire in the area of the community of St Dogmaels together with the proposals they have formulated thereon;

and the National Assembly for Wales having decided to give effect to these proposals with modifications the effect of which includes the transfer an area of land adjoining the property of "Parc Y Ffrier" from the County of Ceredigion to the County of Pembrokeshire;

and more than six weeks having elapsed since those proposals were made;

now the National Assembly for Wales, in exercise of the powers given to the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 which are vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales(**b**) makes the following Order:-

(a) 1972 (c.70).

(b) *See* National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

**Enwi a chychwyn**

**1.**-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2003, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau, ond at ddibenion pob achos sy'n arwain at etholiad neu'n ymwneud ag etholiad sydd i'w gynnal ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei wneud.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "Ceredigion" yw Sir Ceredigion.

ystyr "map ffiniau A" (*"boundary map A"*) yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map A Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "map ffiniau B" (*"boundary map B"*) yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map B Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" (*"the Regulations"*) yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'i diwygiwyd)(**a**);

ystyr "Sir Benfro" (*"Pembrokeshire"*) yw Sir Benfro.

**Newidiadau i Ardaloedd Cymunedau**

**3.** Bydd y rhannau o Geredigion a farciwyd A ar fap ffiniau A ac a farciwyd B ar fap ffiniau B yn cael eu gwahanu oddi wrth y sir honno a byddant yn ffurfio rhan o Sir Benfro. Gan hynny bydd cymuned Llandudoch yn ffurfio rhan o Sir Benfro.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6 Rhagfyr 2002

*E. Hart*

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

(a) O.S. 1976/246. fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 (O.S. 1978/247).

**Name and commencement**

**1.**-(1) This Order is called the Ceredigion and Pembrokeshire (St Dogmaels) Order 2002.

(2) This Order shall come into force on 1 April 2003 which is the appointed day for the purposes of the Regulations, except that for the purpose of all proceedings preliminary or relating to an election to be held on or after that date this Order shall come into force on the day after that on which it is made.

**Interpretation**

**2.** In this Order -

" boundary map A" (*"map ffiniau A"*) means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Map A of the Ceredigion and Pembrokeshire (St Dogmaels) Order 2002" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Regulations;

"boundary map B" (*"map ffiniau B"*) means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Map B of the Ceredigion and Pembrokeshire (St Dogmaels) Order 2002" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Regulations;

"the Regulations" (*"y Rheoliadau"*) means the Local Government Area Changes Regulations 1976 (as amended)(**a**);

"Ceredigion" means the County of Ceredigion.

"Pembrokeshire" (*"Sir Benfro"*) means the County of Pembrokeshire.

**Changes in Community Areas**

**3.** The parts of Ceredigion which are marked A on boundary map A and marked B on boundary map B shall be separated from that county and shall form part of Pembrokeshire. The community of St Dogmaels will therefore form part of Pembrokeshire.


Signed on behalf of the National Assembly for Wales

6th December 2002

Minister for Finance, Local Government and Communities


(a) S.I. 1976/246. as amended by the Local Government Area changes (Amendment) Regulations 1978 (S.I. 1978/247).

## Map A Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002




Seilir y map hwn ar fap Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r hawlfraint a gallai arwain at eich erlyn neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif trwydded GD 272221

# Map A of the Ceredigion and Pembrokeshire (St Dogmaels) Order 2002




Area A of the community of St Dogmaels to be transferred from the County of Ceredigion to the County of Pembrokeshire

Existing Local Authority Boundary

Existing Community Boundary


New Local Authority Boundary

0 1kilometre

CartoGraphics, National Assembly for Wales


This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office.© Crown copyright. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: GD 272221

# Map B Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002




Seilir y map hwn ar fap Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r hawlfraint a gallai arwain at eich erlyn neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif trwydded GD 272221

# Map B of the Ceredigion and Pembrokeshire (St Dogmaels) Order 2002




Area B of the community of St Dogmaels to be transferred from the County of Ceredigion to the County of Pembrokeshire

Existing Local Authority Boundary

Existing Community Boundary

New Local Authority Boundary

0 1kilometre

CartoGraphics, National Assembly for Wales

This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office.© Crown copyright. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: GD 272221

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2002 Rhif 3272 (Cy.310)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2002 No. 3272 (W.310)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Ceredigion and Pembrokeshire (St Dogmaels) Order 2002

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090627-6

**£4.00**

W009/02/03 ON

9 780110 906270